Hi All

Just to give you a bit of an update on where we're at with ongoing consultations.

Improvement Objectives 2016 – 2017

Each year we agree a set of Improvement Objectives, which are the key priorities for our work over the next 12 months.

We'd be grateful if you could submit your views by **Monday 1st February**, if you have not already done so.

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,988&parent_directory_id=646&id=32933&Language=

Have Your Say on Council Budget Pressures 2016 – 2019

Many thanks to all of you who took the time and trouble to respond to our budget consultation.

We are still busy ploughing our way through the many responses and these will used, in addition to the headline results that went to recent Overview & Scrutiny Committees, be used to produce a consultation report, which will be considered as part of papers going to Cabinet on 22nd February and full Council on 10th March.

Following this, a summary for general distribution will also be produced.

Proposal to Introduce a Council Tax Premium on Second Homes

Recent new legislation means that we have been able to pick up on suggestions we received during the 'PCC is Changing Events' we held across the county last October, and the feedback we had on this idea, as part of the recent budget consultation.

We are proposing to introduce a Council Tax premium on second homes from 1st April 2017 onwards. We will be contacting owners of all properties we currently have listed as 'second homes' over the next month to ask them for their views. We'd also like to hear your views on this, which you can give via:

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,988&parent_directory_id=646&id=33034&Language=

The closing date for responses is **Monday 22nd February 2016**.

Kind Regards, Sarah

Corporate Communications Officer – 01437 775263

Helo Bawb,

Dim ond gair byr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymgynghoriadau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Amcanion Gwella 2016 – 2017

Bob blwyddyn, rydym yn cytuno ar set o Amcanion Gwella, sef y prif flaenoriaethau ar gyfer ein gwaith dros y 12 mis nesaf.

Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn gallu cyflwyno'ch sylwadau erbyn **Dydd Llun 1 Chwefror**, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,988&parent_directory_id=646&id=32933&language=CYM

Dweud eich Dweud am y Pwysau ar Gyllideb y Cyngor 2016 – 2019

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gymryd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad ar y gyllideb.

Ar hyn o bryd, rydym yn dal i weithio'n ffordd drwy'r pentwr o ymatebion a byddwn yn defnyddio'r rhain, yn ogystal â'r canlyniadau cychwynnol a anfonwyd at y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu diweddar, i greu adroddiad ymgynghori. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn cael ei ystyried yn rhan o bapurau i'w cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Chwefror a'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth.

Yn dilyn hyn, bydd crynodeb yn cael ei gynhyrchu hefyd a fydd yn cael ei ddosbarthu'n gyffredinol.

Cynnig i Gyflwyno Premiwm Treth Gyngor ar Ail Gartrefi

Mae deddfwriaeth newydd ddiweddar yn golygu ein bod wedi gallu gweithredu ar awgrymiadau a gawsom yn ystod digwyddiadau 'Mae Cyngor Sir Penfro yn newid' a gynhaliwyd dros y sir gyfan yn ystod mis Hydref y llynedd, a'r adborth a gawsom i'r syniad hwn fel rhan o'r ymgynghoriad diweddar ar y gyllideb.

Rydym yn cynnig cyflwyno premiwm Treth Gyngor ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Byddwn yn cysylltu â pherchenogion pob eiddo sydd ar hyn o bryd wedi'i restru fel 'ail gartref' dros y mis nesaf i ofyn iddynt am eu safbwyntiau. Hoffem glywed eich safbwyntiau chi am hyn hefyd. Gallwch gysylltu â ni drwy:

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,988&parent_directory_id=646&id=33034&language=CYM

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **Dydd Llun 22 Chwefror 2016.**

Cofion cynnes, Sarah

Swyddog Cysylltiadau Corfforaethol – 01437 775263